# GWERS METAWYBYDDIAETH MATHEMATEGOL CA3

| CYNLLUNIO |
|---|
| Dosbarthu'r daflen waith gyda'r prisiau gwahanol – y dysgwyr i weithio mewn grwpiau bychain.<br><br>Rhoi 5 munud i'r dysgwyr ddarllen trwy'r daflen a phenderfynu beth i'w wneud – dewis strategaeth.<br><br>Neb i wneud unrhyw gyfrifiadau ar hyn o bryd – dim ond penderfynu beth sydd raid ei wneud. |
| **TRAFOD** |
| Gofyn i grwpiau gwahanol adrodd yn ôl ar y strategaethau y maent am eu defnyddio. Rhai cwestiynau posib i'w holi:<br><br>– beth yw'r ffordd orau o osod y cyfrifiadau allan?<br><br>– pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen (e.e. 1kg = 1000g)?<br><br>– ydych chi am adael i Fam Megan fynd i un siop yn unig, neu'r holl siopau? (Efallai yr hoffai'r athro orfodi dewis yn fan hyn?) |
| **CYFRIFO** |
| Gofyn i'r grwpiau fynd ati i wneud y cyfrifiadau (tua 25 munud).<br><br>Gellir gwneud y gweithgaredd yn anoddach trwy beidio â chaniatáu defnyddio cyfrifianellau.<br><br>Gofyn i bob grŵp enwebu person i adrodd yn ôl ar y diwedd yn nodi eu cyngor i Fam Megan. |
| **MYFYRIO** |
| Gofyn i bob grŵp adrodd yn ôl gyda'u cyngor i Fam Megan – pa siop(au) i'w defnyddio; cost prynu'r holl fwyd a diod.<br>Opsiynol: Cyhoeddi'r ateb cywir. |
| **CYNLLUNIO (2)** |
| Gosod cwestiwn sy'n gorfodi'r dysgwyr i wneud cyfrifiadau pellach er mwyn darganfod ateb. Er enghraifft:<br><br>– Ydi'ch ateb chi'n newid os caiff Mam Megan siopa mewn un siop yn unig?<br><br>– Ydi'ch ateb chi'n newid os caiff Mam Megan siopa mewn unrhyw siop?<br><br>– Ydi'ch ateb chi'n newid os nad yw'r cynigion arbennig ar gael (ac mae pris jeli yn Asda yr un faint â phris jeli yn Tesco)? |


| CYFRIFO (2) |
| --- |
| Rhoi amser i'r dysgwyr wneud cyfrifiadau ychwanegol i ateb y cwestiwn/cwestiynau o Cynllunio (2) ar y dudalen flaenorol. |

| MYFYRIO (2) |
| --- |
| Adrodd yn ôl. Cwestiynau posib i'w holi:<br><br>– Oeddech chi wedi ysgrifennu digon o fanylion y tro cyntaf er mwyn ateb y cwestiynau ychwanegol?<br><br>– Beth wnaethoch chi'n dda fel grŵp y tro hwn?<br><br>– Pe baech chi'n gwneud gweithgaredd tebyg yn y dyfodol, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol? |

## MANYLION PELLACH

Pwrpas y wers hon yw cael y dysgwyr i ystyried y dulliau y maent yn eu defnyddio i ddatrys problem benodol. Wrth drafod ymysg ei gilydd, a chyda grwpiau eraill, maent yn ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â phroblemau ymarferol.

Gellir meddwl am y wers yn nhermau esgyn trwy driongl arferol tacsonomeg Bloom, a ddangosir isod.




Mae'r wers yn cychwyn ar waelod y triongl, wrth gynllunio'r strategaethau. A yw'r dysgwyr yn **deall** beth sydd raid ei wneud?

Pa **wybodaeth** ychwanegol sydd ei hangen? – e.e. cofio bod 1 litr = 1000 ml.

Yn rhan gyfrifo'r wers, mae'r dysgwyr yn defnyddio'u sgiliau rhif i geisio datrys y broblem. Maent yn **cymhwyso'r** dull y maent wedi'i ddewis er mwyn ceisio rhoi cyngor call i Fam Megan.

Yn ystod y cyfnod myfyrio cyntaf, mae'r dysgwyr yn datgan eu hateb i'r broblem, ac yn **dadansoddi'r** ateb hwn yng nghyd-destun atebion grwpiau eraill y dosbarth.

Tuag at ddiwedd y wers, mae'r dysgwyr yn ceisio defnyddio'u cyfrifiadau i ateb cwestiynau ychwanegol. Cânt gyfle i **werthuso** eu strategaethau ar ddiwedd y wers – oes lle i wella yn y dyfodol?

Nodyn: Mae'r amseroedd yn y cynllun gwers yn cael eu rhoi fel canllaw yn unig – byddai'n bosib defnyddio sawl gwers yn ymchwilio'n llawn i mewn i holl nodweddion y broblem.